**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

—

**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Chris Llewelyn, Prif Weithredwr
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

7 Awst 2023

Annwyl Chris

Ymchwiliad i atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn cynnal ymchwiliad i atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd. Ceir rhagor o fanylion am ein gwaith hyd yma, gan gynnwys y cylch gorchwyl, ar ein gwefan.

Un cwestiwn sydd wedi'i godi yw sut y mae sefydliadau'n ymdrin â honiadau o drais ar sail rhywedd yn fewnol. Felly, byddem yn ddiolchgar pe gallech nodi pa weithdrefnau sydd ar waith ar draws gwasanaethau statudol, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol ac addysg, ar gyfer trin honiadau o drais ar sail rhywedd a godir gan neu yn erbyn gweithwyr.

Byddem hefyd yn croesawu unrhyw sylwadau sydd gennych ar ein cylch gorchwyl yn ehangach.

Gan fod ein cyfnod casglu tystiolaeth yn dod i ben, byddem yn ddiolchgar cael eich ymateb erbyn 25 Awst 2023 os yw'n bosibl.

Yn gywir



Jenny Rathbone AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.